*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru i'w cymeradwyo o dan adran 209(2), (3)(b) a (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2023 Rhif (Cy. )

# CYDRADDOLDEB, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o awdurdodau Cymreig perthnasol yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o ganlyniad i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, sy'n diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn creu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru i'w cymeradwyo o dan adran 209(2), (3)(b) a (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2023 Rhif (Cy. )

# CYDRADDOLDEB, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *4 Medi 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 151(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**).

Yn unol ag adran 152(2) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Yn unol ag adran 209(2), 3(b) a (6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Medi 2023.

**Diwygiadau i Ran 2 o Atodlen 19 (awdurdodau Cymreig perthnasol)**

**2.** Yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010—

(**1**) 2010 p. 15.

(a) hepgorer “The Higher Education Funding Council for Wales or Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.”;

(b) yn y lle priodol mewnosoder “The Commission for Tertiary Education and Research or Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.”

**Darpariaeth drosiannol**

**3.** Hyd nes bod adran 23 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022([**1**]) yn dod i rym, mae’r cyfeiriad at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn Rhan 2 o Atodlen 19 i’w ddarllen fel pe bai’n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

*Enw*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) 2022 dsc 1.